Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Y Ffin
# Sandy Lane
# Cil-y-coed
# NP26 4NQ

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Y Ffin

Lleolir Ysgol Gymraeg Y Ffin yng Nghil-y-Coed, Sir Fynwy. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 132 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 6 oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 5 dosbarth oed cymysg.

Tua 11% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r canran cenedlaethol, sef 21%. Ychydig o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 19% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Tachwedd 2016 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn datblygu medrau llafar Cymraeg da yn fuan ar ôl cychwyn ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu ar hyn yng nghyfnod allweddol 2 ac yn defnyddio'u medrau meddwl a llythrennedd yn effeithiol i gefnogi'u dysgu. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu gan gyfrannu'n hyderus at weithgareddau a thrafodaethau dosbarth.

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n annog ei disgyblion i ddangos lefel uchel o barch a goddefgarwch at eraill. Mae'r staff yn cynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion ac yn cydweithio â rhieni i ddarparu profiadau allgyrsiol cyfoethog sy'n cefnogi'r dysgu yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at falchder disgyblion yn eu hiaith a'u Cymreictod.

Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth bwrpasol ar gyfer yr ysgol yn llwyddiannus, sy'n cefnogi diwylliant cynyddol o ddisgwyliadau uchel ac ethos o waith tîm agos a chynhaliol mewn amgylchedd Cymreig.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Rhannu arferion gorau'r addysgu ar draws yr ysgol

A2 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd yn fwy cyson mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A3 Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu medrau TGCh disgyblion cyfnod allweddol 2

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol rhan fwyaf y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir o ystyried eu cefndir ieithyddol. Tra yno, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd effeithiol o'u mannau cychwyn.

Mae medrau llafar y disgyblion yn datblygu'n gadarn yn fuan. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol. Maent yn gwrando'n dda ac yn sgwrsio a thrafod eu gwaith yn frwdfrydig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau llafar yn llwyddiannus yn y ddwy iaith. Maent yn dangos balchder at y Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith yn hyderus wrth siarad â'u cyfoedion ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n dda at drafodaethau, gan fynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Mae hon yn elfen gref o waith yr ysgol.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau ac yn dechrau adeiladu geiriau'n hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus gan ddarllen gyda chywirdeb a rhuglder. Maent yn dangos diddordeb yn eu llyfrau ac yn trafod eu cynnwys yn aeddfed, wrth gynnal trafodaeth am fywyd dreigiau Komodo, er enghraifft. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ddeallus a chyda rhuglder gynyddol mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth ddarllen a mynegi barn am gynnwys llythyron o gŵyn mewn gwers lythrennedd.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol, gan sillafu'r mwyafrif o eiriau cyffredin yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn atalnodi'n gywir ac yn ysgrifennu ystod o destunau ar draws y cwricwlwm ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yn effeithiol a chywir. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn defnyddio ansoddeiriau pwrpasol ac yn amrywio dechrau brawddegau'n fedrus er mwyn ymestyn eu gwaith.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu'n gynyddol hyderus yn y ddwy iaith. Maent yn atalnodi'r gywir ac yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau'n llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol mewn ystod o ffurfiau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft cyfleu teimladau faciwî wrth adael ei chartref ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd ac yn eu defnyddio'n llwyddiannus ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Maent yn cyfri a datrys problemau heriol yn gynnar iawn ac yn defnyddio'r medrau hyn mewn meysydd amrywiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, arian, amser a thrin data. Mae disgyblion mwyaf abl yn datrys problemau cymhleth yn fedrus gan ddefnyddio ystod o wahanol fedrau a strategaethau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn datrys problemau heriol yn eu gwersi mathemateg ac yn trefnu data'n llwyddiannus i gofnodi canlyniadau arbrofion gwyddonol ar awyrennau papur. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 gymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn datblygu'n dda iawn ar draws y cyfnod sylfaen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth meithrin yn datblygu rheolaeth fedrus ar gyfrifiaduron a llechi electronig. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu ystod o fedrau'n llwyddiannus iawn i gyflwyno gwybodaeth mewn amrywiol ffurfiau, yn cynnwys prosesu geiriau a defnyddio 'ap' i gyfansoddi cerddoriaeth i gyd-fynd â gwaith ar y Titanic.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau TGCh yn briodol i gefnogi'u gwaith mewn pynciau eraill. Maent yn cofnodi a chyfleu gwybodaeth yn addas trwy ddefnyddio prosesydd geiriau ac apiau i greu fideos syml ac maent yn dechrau defnyddio taenlenni a fformiwlâu syml i drefnu data'n effeithiol. Fodd bynnag, gan mai prin yw'r cyfleodd iddynt gymhwyso'u medrau mewn meysydd eraill, nid yw disgyblion yn adeiladu ar eu medrau yn ddigon effeithiol wrth iddynt drosglwyddo o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 2.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hapus ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol. Maent yn gwybod beth i'w wneud os bydd unrhyw beth yn eu poeni, ac mae ganddynt hyder yn y staff i ddarparu cefnogaeth iddynt os fydd angen. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda. Maent yn gwrtais a meddylgar ac yn dygymod â'r her o gwrdd â phobl sy'n anghyfarwydd iddynt yn gwrtais gan wrando, trafod a mynegi barn yn aeddfed. Maent yn ddisgyblion ystyriol a chyfeillgar sy'n ofalgar iawn o'i gilydd.

Mae bron pob disgybl yn canolbwyntio'n dda ac yn rhoi o'u gorau mewn gweithgareddau dysgu. Maent yn gweithio'n effeithiol yn unigol, mewn grwpiau ac fel dosbarth, gan ddangos dyfalbarhad a pharodrwydd i ddysgu. Mae'r rhan fwyaf yn siarad am eu gwaith yn hyderus gan ddangos balchder a deallusrwydd am y cynnwys. Maent yn dangos dyfalbarhad a'r awydd i lwyddo wrth ymroi'n llawn i brofiadau a syniadau anghyfarwydd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus ac annibynnol. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn dethol offer yn aeddfed er mwyn cyflawni gofynion tasg. Mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o'u cryfderau a'u gwendidau, ac yn egluro'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i ddatblygu eu gwaith ymhellach.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion wybodaeth gadarn ynglŷn â gwneud dewisiadau doeth o ran bwyta ac yfed yn iach, ac ynglŷn â phwysigrwydd eu lles emosiynol a chorfforol. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn manteisio'n gyson ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol cyfoethog, fel y clybiau chwaraeon niferus. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu medrau personol a chymdeithasol yn ogystal â datblygu eu hyder a'u ffitrwydd yn llwyddiannus. Mae gan bron pob disgybl wybodaeth gadarn am reolau diogelwch y we.

Mae'r disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd da mae'r ysgol yn eu darparu iddynt ysgwyddo cyfrifoldebau arwain, gan weithredu yn hyderus ac aeddfed. Er enghraifft, mae'r 'Criw Cymraeg' yn ymfalchïo yn eu llwyddiant wrth annog y defnydd o'r Gymraeg rhwng disgyblion mewn gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Yn ogystal â hyn, mae aelodau'r grŵp 'Ditectifs dysgu' yn falch o'u rôl yn cynrychioli eu cyfoedion wrth hyrwyddo dysgu effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn dechrau cyfrannu'n werthfawr at benderfyniadau strategol yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu fel dinasyddion moesol a gwybodus trwy eu hymwybyddiaeth gynyddol o werthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol. Maent yn egluro arwyddocâd 'gwerth yr wythnos', sef ymddygiad pwysig sy'n cael ei annog, fel caredigrwydd neu ddyfalbarhad. Trwy eu gwaith dosbarth a'u dealltwriaeth o flaengareddau fel ymgyrch masnach deg, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o'r byd ehangach. Enghraifft dda o hyn yw eu dealltwriaeth o bwysigrwydd hawliau plant mewn gwledydd eraill.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae safon yr addysgu yn dda. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu llwyddiannus sy'n sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'n dda ac yn ymgymryd yn llwyr â'u dysgu. Maent yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, a phrofiadau a heriau cyffrous i'w disgyblion, sy'n cymell eu diddordeb a'u brwdfrydedd i ddysgu. Trwy gynnwys llais eu disgyblion yn y cynllunio, mae rhan fwyaf y staff yn adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau dysgu blaenorol yn effeithiol. Ar draws yr ysgol, mae'r staff yn modelu iaith safonol yn llwyddiannus ac mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhyngddyn nhw â'r disgyblion. Maent yn holi'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol.

Mae ansawdd yr addysgu yn effeithiol ar draws y cyfnod sylfaen, gyda'r staff yn cydymffurfio â'r egwyddorion sylfaenol ac yn meithrin annibyniaeth y disgyblion yn gynnar iawn, gan ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn fedrus. Trwy gynllunio gweithgareddau ysgogol iddynt, mae'r staff yn sicrhau bod y disgyblion yn cael profiadau arbennig sy'n tanio eu dychymyg mewn cyd-destunau go iawn. Er enghraifft, maent yn defnyddio llechen i wneud fideo o'u hunain yn siopa am ddillad i'r carnifal yn y 'Siop gwisg ffansi' yn yr ardal allanol. Mae staff yn defnyddio'r holl ardaloedd dysgu'n grefftus i annog y disgyblion i ymchwilio ac i ddefnyddio'u gwybodaeth a'u medrau'n greadigol ar draws yr holl feysydd dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus ac yn ymgymryd yn llawn â'u dysgu.

Yn gyffredinol, mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon yn llwyddiannus trwy annog disgyblion i ddefnyddio'u medrau mewn amrywiaeth o dasgau heriol. Maent yn cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd Cymraeg a Saesneg y disgyblion yn gadarn trwy ystod o themâu a gweithgareddau sy'n adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn effeithiol. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd a TGCh mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau cyfnod allweddol 2, mae cyflwyniadau pwrpasol yr athrawon yn ysgogi disgyblion ac yn eu hannog i gyfrannu'n effeithiol at drafodaethau, a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Yn yr ychydig weithgareddau sydd ddim mor effeithiol, nid yw lefel yr her na'r disgwyliadau yn ddigon uchel i sicrhau bod

disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith mewn ychydig o ddosbarthiadau yn llesteirio gallu lleiafrif y disgyblion i ymestyn eu hysgrifennu ac i ddefnyddio'u medrau annibynnol yn ddigon rheolaidd.

Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o ystod o weithdrefnau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol. Maent yn cynnig adborth llafar gwerthfawr ac yn defnyddio sylwadau ysgrifenedig effeithiol lle'n briodol. Mae hyn yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent wedi ei gyflawni'n dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. O ganlyniad, mae disgyblion yn meithrin medrau dysgu annibynnol da ac yn gwella darnau o'u gwaith yn effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod gan athrawon wybodaeth gyfredol am gynnydd disgyblion er mwyn targedu unigolion a grwpiau penodol yn bwrpasol. Yn ogystal, trwy olrhain lles disgyblion yn rheolaidd, maent yn darparu cymorth ac arweiniad priodol iddynt yn gyflym. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau dysgu a lles disgyblion ar draws yr ysgol.

Wedi eu hadnabod, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth effeithiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn unol â'u hanghenion. Mae'r cynlluniau dysgu unigol ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn bwrpasol a defnyddiol. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd cyson ohonynt wrth gynllunio ystod o ymyraethau penodol sy'n sicrhau cefnogaeth a her i'r disgyblion hyn. Yn ogystal, mae gan yr ysgol berthynas waith gadarn gydag ystod o asiantaethau eraill er mwyn cefnogi disgyblion ac i estyn cymorth ac arweiniad i staff.

Mae gan yr ysgol berthynas werthfawr gyda rhieni. Trwy nosweithiau cwricwlaidd a chyfarfodydd unigol gydag athrawon, mae'r rhieni yn cael cyfleoedd gwerthfawr i drafod cynnydd a thargedau datblygiad eu plant. Mae cylchlythyr safonol, sy'n cael ei gynhyrchu gan y disgyblion, yn cael ei rannu'n fisol ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni. Mae'r ysgol yn manteisio ar arbenigedd rhieni a phobl eraill o fewn y gymuned i gyfoethogi'r ddarpariaeth a phrofiadau dysgu disgyblion. Enghreifftiau da o hyn yw'r clybiau gwyddoniaeth a Ffrangeg sy'n cael eu cynnal gan rieni a ffrindiau'r ysgol.

Mae ffocws clir ar ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol i ddisgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu amrywiol gyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ymuno â grwpiau arweinyddol fel y cyngor ysgol, y cyngor eco, Criw Cymraeg a Ditectifs Dysgu. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth yn dda. Mae'r defnydd o gynlluniau pwrpasol ac ymwelwyr yn sicrhau eu bod yn derbyn ystod o wybodaeth ddefnyddiol am les a diogelu. Er enghraifft, mae'r swyddog heddlu'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i addysgu'r disgyblion am sut i gadw'n ddiogel ar y we ac am beryglon siarad â phobl ddieithr. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae hyn yn annog y disgyblion i wneud dewisiadau doeth o ran bwyta ac yfed ac i gadw'n iach. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn dda trwy ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrio ac i rannu eu profiadau, er enghraifft trwy ddysgu am werthoedd yn eu gwasanaethau dyddiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'r ardal leol a Chymreictod yn

effeithiol, er enghraifft trwy astudio hanes Castell Cil-y-Coed a'u hannog i gystadlu mewn eisteddfodau amrywiol. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr i ddatblygu eu dealltwriaeth o'u treftadaeth a diwylliant Cymru. Trwy fanteisio ar arbenigeddau staff o fewn yr ysgol, mae disgyblion hefyd yn cael cyfleoedd buddiol i ddefnyddio'u dychymyg yn eu gwaith celfyddydol a chreadigol. Er enghraifft, maent yn creu gwaith celf eu hunain fel rhan o brosiect am ryfeddodau'r byd.

Mae'r diwylliant cyfoethog o barch, cydraddoldeb a thegwch sy'n bodoli yn hybu nodau'r ysgol yn llwyddiannus. Caiff hyn ei atgyfnerthu drwy brofiadau pwrpasol sy'n cynnwys astudiaethau o wledydd a diwylliannau eraill yn ogystal â gweithgareddau elusennol. Mae hyn yn meithrin parch y disgyblion tuag at ddiwylliannau a chredoau eraill ac yn eu hannog i dyfu'n ddinasyddion effeithiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mewn byr amser ers eu penodiad, mae'r pennaeth a'i ddirprwy wedi sicrhau gwelliannau cadarn o ran safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ar draws yr ysgol. Maent wedi llwyddo i gyfleu gweledigaeth glir a phwrpasol yn seiliedig ar godi safonau, lles a Chymreictod disgyblion. O ganlyniad, mae'r ysgol bellach yn llwyddo i sefydlu diwylliant cynyddol o ddisgwyliadau uchel ac ethos o waith tîm agos a chynhaliol mewn amgylchedd Cymreig.

Mae aelodau'r uwch dîm rheoli, yn ogystal â staff sy'n arwain ar agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol, yn datblygu'u rôl strategol yn effeithiol. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar flaenoriaethau ar gyfer gwella gyda ffocws clir ar godi safonau a lles ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y staff yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau drwy weithredu nifer o strategaethau pwrpasol, fel gwella medrau Cymraeg a dealltwriaeth disgyblion o'u Cymreictod trwy weithredu egwyddorion y Siarter Iaith yn effeithiol. Mae eu rôl yn y broses o fonitro a sicrhau ansawdd yn datblygu'n llwyddiannus.

Mae'r cadeirydd, ynghyd â lleiafrif o aelodau'r corff llywodraethol, yn gymharol newydd i'w rôl. Er hyn, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion tebyg yn ogystal â chynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella. Maent yn derbyn gwybodaeth fuddiol gan y pennaeth, y staff a'r disgyblion am fywyd a gwaith yr ysgol; er enghraifft, mae disgyblion yn paratoi cyflwyniad iddynt ar effaith eu pwyllgorau amrywiol ar safonau a lles. Mae is-bwyllgorau yn dechrau cyfrannu'n fuddiol tuag at arwain cyfeiriad strategol yr ysgol trwy ymgymryd â gweithgareddau monitro rheolaidd. Maent, er enghraifft, yn ymgymryd ag ymweliadau pwrpasol i graffu ar lyfrau a siarad gyda disgyblion a staff. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at wella'u gwybodaeth ac yn rhoi trosolwg iddynt o holl waith yr ysgol i'w galluogi i herio'r ysgol am ei pherfformiad. Dros gyfnod anodd o ansefydlogrwydd o ran newidiadau staffio a heriau cyllidol, mae aelodau'r corff wedi ymgymryd â'u rôl fel ffrind beirniadol yn gadarn a chall.

Er yn ddisgrifiadol ar adegau, mae'r ddogfen hunanarfarnu yn effeithiol ac yn cynnig darlun gonest a chywir o'r ysgol. Mae cyswllt agos rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun hwn yn

canolbwyntio'n gadarn ar wella safonau ac yn nodi cyfrifoldebau staff yn glir. Mae'r cynllun wedi'i gostio'n briodol ac yn cynnwys amserlenni synhwyrol a meini prawf addas i fesur eu heffeithiolrwydd. Mae'r ysgol wedi blaenoriaethu'n briodol wrth roi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol er mwyn rhannu arfer dda a chyd-gynllunio.

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff cymwysedig, gan gynnwys staff cymorth i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys ac i gefnogi a chynnal disgyblion yn effeithiol. Yn ddiweddar, mae'r arweinwyr wedi llunio strwythur staffio newydd ac effeithiol sy'n galluogi staff ar wahanol lefelau i ymgymryd â chyfrifoldebau arwain. Mae cyfrifoldebau wedi eu dosrannu'n briodol er mwyn defnyddio'n llawn arbenigeddau a phrofiad staff. Mae ganddynt ddisgrifiadau swydd manwl, sy'n cysylltu'n dda â'u cyfrifoldebau unigol. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn eu lle, sy'n gosod amcanion addas ar gyfer datblygu medrau athrawon ymhellach ac sy'n seiliedig ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu. O ganlyniad, mae staff yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu'n broffesiynol yn unol â'u hanghenion nhw ac anghenion yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli gwariant yn ofalus iawn. Maent yn cydweithio â'r awdurdod lleol trwy weithredu cynllun cytûn i ddileu gorwariant yn y cyllid a oedd o ganlyniad i ddigwyddiad nad oedd o fewn eu gallu i'w reoli. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles y disgyblion sy'n deilwng i'w dderbyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2017